# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 11 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **08.59 - 10.01** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/6c39999b-37de-4c57-a635-32b2f058ac05?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Jones, Funky Dragon**<br>**Jones, UK Youth Ambassador 2012 -2014 and Bridgend Youth Council**<br>**Gillum, Powys Youth Council**<br>**Crowley, Funky Dragon** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Sesiwn Dystiolaeth - P-04-597 Diogelu dyfodol Draig Ffynci, Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru

Atebodd Tricia Jones, Jack Gillum, Catherine Jones ac Anne Crowley, cynrychiolwyr y Ddraig Ffynci, gwestiynau'r Pwyllgor.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- drefnu i'r deisebydd gael gwybod pan fydd dyddiad y ddadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i gyhoeddi;
- aros tan y ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach neu cau'r ddeiseb; a
- gofyn i'r Gweinidog am y pwyntiau a gododd Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch achosion pan fydd amheuaeth o ganser ond nid yw'n achos brys.

### 3.2 P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ofyn am y sicrwydd y gofynnodd y deisebydd amdano; a
- cheisio barn y deisebydd ar gyhoeddiad diweddar y Gweinidog.

### 3.3 P-04-540 Stopio rhagfarn ar sail rhyw mewn cam-drin domestig

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

## 3.4P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofyn a fyddai'n barod i ystyried cynnal ymchwiliad yn unol â chais y deisebwyr.

## 3.5P-04-586 Holl staff GIG Cymru i gael eu talu ar y gyfradd Cyflog Byw o £7.65 yr awr o leiaf

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

## 3.6P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog ar sylwadau pellach y deisebydd.

## 3.7P-04-598 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

## 3.8P-04-516 Gwneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

## 3.9P-04-559 Ymwybyddiaeth mewn Ysgolion Uwchradd o Hunan-niweidio

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ddwyn yr ymatebion a ddaeth i law at sylw'r Athro Graham Donaldson;
- ofyn eto am yr ymatebion gan y Byrddau Iechyd; ac
- anfon yr ymatebion at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer unrhyw drafodaethau y caiff y Pwyllgor yn y dyfodol yng nghyd-destun ei waith ar CAMHS.

### 3.10 P-04-562 Canolfan Etifeddiaeth Caernarfon

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.11 P-04-585 Newidiadau i gyffordd yr A494/A470 yn Nolgellau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.12 P-04-594 Apêl Cyngor Cymuned Cilmeri ynghylch y Gofeb i'r Tywysog Llywelyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.13 P-04-599 Effaith Ardrethi Domestig ar Lety Hunan Arlwyo

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gynghrair Twristiaeth Cymru, sef 'Llais y Diwydiant Twristiaeth' yng Nghymru, i ofyn a yw'n rhannu pryderon y deisebydd neu a all gynnig unrhyw sicrwydd.

### 3.14 P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, i ofyn am farn ar yr ohebiaeth hyd yn hyn;
- Cymdeithas Yswirwyr Prydain, i ofyn am farn ar y premiymau yswiriant ar gyfer tai sydd wedi cael llifogydd o'r blaen ond sydd mewn ardaloedd risg isel o ran llifogydd; ac
- archwilio a oes unrhyw waith blaenorol wedi'i wneud gan Bwyllgor arall ar Wrthsefyll Llifogydd.

### 3.15 P-04-579 Adfer cyllid ar gyfer monitro Gwylogod Ynys Sgomer

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.16 P-04-583 Gwahardd Tyfu a Gwerthu unrhyw Hadau / Bwydydd a Phorthiant Anifeiliaid / Pysgod GM yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Dirprwy Weinidog ymateb i sylwadau'r deisebydd a hefyd i egluro'r gwrth-ddweud ymddangosiadol rhwng polisi Llywodraeth Cymru i gynnal dull cyfyngol a gofalus o ran tyfu cnydau GM a barn yr Asiantaeth Safonau Bwyd nad oes unrhyw reswm i dybio bod porthiant anifeiliaid GM yn peri mwy o risg i dda byw ar ffermydd o'i gymharu â phorthiant anifeiliaid confensiynol; a
- chysylltu â Chlerc y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am y gwaith blaenorol ar y mater, er mwyn ei rannu gyda'r deisebydd.

### 3.17 P-04-595 Llwybr Foresight

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.18 P-04-592 Pleidleisiau gan Ddinasyddion sy'n Rhwymol yn Ddemocrataidd ar Lefel Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.

### 3.19 P-04-596 Achub Gorsaf Dân y Porth - MAE'R EILIADAU'N CYFRIF!

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd ar yr ohebiaeth a ddaeth i law.